

NEWYDDION YR ACADEMI

CYLCHLYTHYR SWYDDOGOL ACADEMI DDELWEDDU
GENEDLAETHOL CYMRU



CROESO

Phillip Wardle (NIAW Cyfarwyddwr)

Rwy'n falch iawn o groesawu ein Blwyddyn Newydd yn yr Academi Ddelweddu gyda'r Cylchlythyr hwn. Mae'n gyfnod o newid yn NIAW ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at eleni wrth i ni barhau i ddatblygu gallu'r Academi gyda'n hadnodd presennol. Ffocws pwysig yw adeiladu ar ein Strategaeth newydd, ac rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsom gan y Bwrdd Strategaeth Rhaglenni Delweddu Cenedlaethol. Mae ein busnes fel arfer ar gyfer eleni yn cynnwys ein hymrwymiad i gefnogi hyfforddiant ar gyfer Uwchsain Pwynt Gofal a pharhau i fod yn ganolfan arholiadau i Goleg Brenhinol y Radiolegwyr ar gyfer Oncoleg Glinigol a Radioleg Glinigol gyda 50 diwrnod o arholiadau yn cael eu cynnal yn NIAW.

Cadwch lygad am ein Cylchlythyrau yn y dyfodol lle byddwn yn parhau i ddangos cwmpas cynyddol gweithgarwch NIAW.

Rydym wedi ffarwelio â Victoria Whitchurch a Hannah Brimson yn yr Hydref, sydd ill dwy wedi cyfrannu cymaint i'r Academi. Nawr, edrychwn ymlaen yn y Gwanwyn at groesawu Tracy Norris, ein Rheolwr Academi newydd, wrth i ni barhau i weithio'n galed i adeiladu ar eu cyfraniadau.

Mae un o Hyfforddwyr yr Academi yn ein gadael ddiwedd mis Ionawr. Diolch o galon i Dr Shawn Halpin am ei ymrwymiad i hyfforddiant o ansawdd uchel i Radiolegwyr yn NIAW am y 4 1/2 mlynedd diwethaf ac yn y gweithle yn Radioleg. Rwy'n falch o groesawu Dr Hishim Jaber fel ein Hyfforddwr Niwroradioleg newydd, a fydd yn olynu Shawn yn NIAW i hyfforddi ein ST1s Radioleg Glinigol.

Dymunaf Flwyddyn Newydd Hapus ac iach i chi gyd.

MYNNWCH WYBOD:

ARLOESED AC YMCHWL

2

CYDWEITHIO

3

HYFFORDDIANT

4

DIGWYDDIADAU

5

ERTHYGL

6

ARLOESED D AC YMCHWIL

Safbwyntiau Hyfforddeion Radioleg ar Ddysgu'n seiliedig ar Efelychu o fewn Rhaglen Uwchsain: Astudiaeth Werthuso

James Yeomans (Hyfforddai NIAW)

Cynhaliais brosiect ymchwil gyda chefnogaeth NIAW o'r enw: Safbwyntiau Hyfforddeion Radioleg ar Ddysgu'n seiliedig ar Efelychu o fewn Rhaglen Uwchsain: Astudiaeth Werthuso.

Ymchwiliodd y prosiect i'r ffordd orau y gall dysgu'n

seiliedig ar efelychu gael ei integreiddio i hyfforddiant uwchsain yn ystod blwyddyn gyntaf rhaglen hyfforddi Radioleg Clinigol De Cymru, drwy ddefnyddio cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda hyfforddeion i ddadansoddi eu profiadau o efelychwyr uwchsain diweddaraf yr Academi. The Awgrymodd y prosiect fod efelychu'n gallu darparu ffyrdd newydd o ddysgu sgiliau seicomodurol a gwybodaeth glinigol trwy ddethol diwyd a churadu cynnwys a darparu adborth ystyrlon ac asesiadau pwrpasol.

Datgelodd hefyd bwysigrwydd grymuso dysgwyr i gofleidio dysgu hunangyfeiriedig a'r angen i ystyried effaith cywirdeb a ffactorau technegol ar y profiad dysgu.

Rhoddodd NIAW gyngor ac adnoddau hanfodol i mi

gwblhau'r prosiect, a thrwy gefnogaeth NIAW, cefais ddefnyddio'r ymchwil hon fel sail i fy nhraethawd hir ar gyfer MSc mewn Addysg Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd a rhannu'r canfyddiadau hyn fel cyflwyniad llafar yng Nghyngres Radioleg Ewrop yn Fienna. Rwy'n hynod ddiolchgar i NIAW am yr holl anogaeth, cymorth a chefnogaeth a gefais.





CYDWEITHIO

Diwrnod Astudio Athrawon Teithiol RCR/BSGAR

Jenna Horn (Gweinyddwr NIAW)

Ar y cyd â'r RCR, mae BSGAR wedi sefydlu cynllun Athrawon Teithiol i dynnu sylw at rôl radioleg gastroberfeddol ac abdmennol yn y DU, annog arferion gorau, a hyrwyddo'r is-arbenigedd. Yn ddiweddar, cynhaliodd NIAW ddiwrnod astudio o'r fath gyda chyfraniadau gan Dr Antony Higginston a Dr Nigel Grunshaw a derbyniwyd yr adborth ardderchog canlynol:

'At ei gilydd, roedd hon yn sesiwn hynod o bleserus ac ysbrydoledig. Roedd yn eithaf calonogol gweld modd sydd wedi ei wfftio braidd yn cael ei ddefnyddio i botensial llawnach nag sydd wedi ei addysgu'n draddodiadol.'

'Patrymau defnyddiol iawn ar gyfer cydnabod patholeg a addysgir mewn dull pwyntiau allweddol sy'n fwy cofiadwy. Siaradwr diddorol oedd yn annog cwestiynau'


"Anhygoel i weld sut y gellir cyflwyno gwasanaeth fel hyn sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i gleifion. Diddorol oedd siarad trwy gyflwyno hyn fel gwasanaeth sydd bennaf yn datrys problemau yn y lie cyntaf'



National Imaging Academy Wales is pleased to host Dr Anthony Higginson and Dr Nigel Grunshaw as part of the Travelling Professor Scheme.



- Has the BSGAR Study Day inspired you to learn more about GI Ultrasound?
- Would you be interested in a national training course?
- Do you think you are going to pursue GI Ultrasound in your future clinical practice?



BSGAR Travelling Professor Study Day - 20.10.22		
9:30	Registration & Coffee	Conference Space
10:00	Introduction Dr Anthony Higginson	Lecture Theatre
10:10	Bowel USS made easy Dr Nigel Grunshaw	
10:45	Inflammatory Bowel Disease Dr Anthony Higginson	
11:15	IBD -The Rapid access clinic Dr Nigel Grunshaw	
11:30	Acute abdomen/Tips and Tricks	
12:15	Q&A	
12:25	Live demo scanning	
12:55	Lunch	Conference Space
13:30	Patient scanning	US Suites
17:00	Close	

HYFFORDDIANT

Dysgu Ar-lein Canvas

Andrew Baitup (Swyddog Cymorth NIAW)

Beth yw Canvas?

Mae Canvas yn blatfform dysgu a rheoli cyrsiau ar-lein sydd wedi'i fabwysiadu ledled y byd gan ystod eang o ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant, oherwydd ei hwylustod a bod cynifer o nodweddion iddo, gan roi profiad greddfoll iawn i Ddysgwyr, Tiwtoriaid a Gweinyddwyr fel ei gilydd. Ym mis Medi 2023 cyflwynwyd Canvas yma yn NIAW.

Beth mae Canvas yn ei gynnig?



Y Myfyriwr:

Nid yn unig y mae Canvas yn cynnig ffynhonnell ar-lein ganolog ar gyfer deunyddiau dysgu ac addysgu, mae hefyd yn meddu ar ystod eang o nodweddion sy'n cynnwys modiwlau, aseiniadau, cwisiau, banciau cwestiwn a grwpiau trafod i enwi dim ond ychydig o'r nodweddion.



Y Tiwtor:

Gellir safoni cyrsiau i gynllun cyffredinol cydlynus, felly mae'r fformat yn gyfarwydd i fyfyrwyr sy'n mynychu mwy nag un cwrs. Mae ystod eang o offer ar gael i gefnogi'r tiwtor o ran y ffordd y caiff y cwrs ei reoli, gan gynnwys cynlluniau marcio a graddio, darllen ychwanegol, dolenni at adnoddau allanol, cyhoeddiadau, dadansoddeg ac olrhain.

Symud ymlaen:

Bydd datblygiad platfform dysgu Canvas yn parhau i dyfu, ac rydym yn gobeithio darparu adnodd dysgu canolog wedi'i reoli ar gyfer pob cwrs yr ydym yn ei ddarparu. Gall y tiwtoriaid ddatblygu'r cyrsiau'n hawdd i gwrdd ag anghenion dysgwyr. Gall myfyrwyr ymgysylltu, adeiladu a rhannu gwybodaeth yn llawn a chael mynediad i ystod eang o ddeunyddiau dysgu amhrisiadwy.



canvas

DIGWYDDIADAU

Diwrnod Astudio Rhwydwaith Cardiofasgwlaidd Ffetws Cymru

Julia Kennedy (Hyfforddwr Sonograffwyr NIAW)


Dan arweiniad Dr. Orhan Uzun, ffurfiwyd Rhwydwaith Cardiofasgwlaidd Ffetws Cymru i ddarparu fforwm proffesiynol ar gyfer addysgu, dysgu, ymchwil, cyfathrebu, cymorth a gosod safonau ar gyfer sonograffwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am ffetwod beichiog, a'u babanod.

Wedi i gynhadledd fis Mehefin gael ei chanslo yng nghyfnod clo 2020 a'r cyfyngiadau dilynol ynghylch diwrnodau astudio a chynulladau, roedd tîm WFCVN yn falch iawn o allu cwrdd unwaith eto ar gyfer diwrnod astudio wyneb yn wyneb ar 25 Tachwedd yma yn yr Academi.

Noddwyd y diwrnod yn garedig gan Canon Medical ac roedd 55 o gynadleddwyr ar y safle, yn amrywio o sonograffwyr i bediatregwyr. Nod y diwrnod oedd canolbwyntio ar farn sgrinio a'r patholegau allai gael eu hadnabod. Siaradodd Dr. Uzun, ynghyd â Dr. Tarak Desai a Dr. Nadhezhda Dzelepova, am anatomeg y galon ffetal ac amryw anghysonderau mae rhywun yn debygol o ddod ar eu traws yn ystod y cyfnod sgrinio a chyn-enedigol. Darparodd Helen Lockyer o Canon Medical hefyd sesiwn addysgiadol ar optimeiddio Doppler lliw. Daeth sesiynau'r bore a'r prynhawn i ben gyda chwisiau rhyngweithiol ardderchog oedd yn seiliedig ar achosion a luniwyd gan Dr Uzun. Bwydodd y 55 cynrychiolydd yn ôl bod hyn yn 'ffordd ragorol o annog cyfranogiad y gynulleidfa a gwerthuso calon ffetws'.

Roedd cyfleusterau'r Academi yn wych, ac roedd y staff yn eithriadol o ddefnyddiol, o ran y trefnu a thrwy gydol y dydd, a oedd yn cynnwys cinio hyfryd a digon o luniaeth.

Hoffai tîm WFCVN ddiolch i bawb a fynychodd neu a gymerodd ran yn y digwyddiad ac sy'n parhau i'n cefnogi. Edrychwn ymlaen yn fawr at y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2023 yma yn NIAW.



Cyflwyno Swyddog Cymorth TG yr Academi

Andrew Baitup (Swyddog Cymorth TG NIAW)

Andrew Baitup is our newest member of staff, who started as NIAW's IT Support Officer in September 2022. Andrew's role is to support the IT systems at the Academy, ensuring the smooth day to day running of all the IT equipment and provide technical support for the teaching sessions & events on site. He will also be involved in the organisation & invigilation of the various examinations taking place throughout the year, as well as the upkeep of the Academy's new online learning platform "Canvas". Andrew is looking forward to being a key member of the team, with the opportunity to further develop his role at the Academy.

Prior to joining us Andrew has worked for Cwm Taf Morgannwg NHS University Health Board for the last 8 years. He initially spent several years based in the Medical Education / Post Graduate Department supporting and developing their teaching & video conferencing facilities; latterly, Andrew was part of the IT Desktop Service Department at the Royal Glamorgan hospital providing general IT support.

Before joining the NHS Andrew worked for several large manufacturing companies in South Wales providing training & IT support on production-based systems. After gaining his teaching degree, Andrew joined the Community Development Unit at Coleg Morgannwg in Llwynypia as a tutor, delivering a wide range of IT courses throughout the Rhondda & Merthyr Valleys.



Ffeithiau diddorol

Hoff Gân = Pen-blwydd hapus a chacen i ddilyn fel arfer.

Aelod o Neath Bowmen (Saethyddiaeth)

Wedi cymhwyso i fod yn addurnwr cacennau.

Wedi arddangos cacennau yn Cake Decorator's Magazine a gwefan The Great British Bake Off.

' Roeddwn yn fideo "Paradise City" Guns N Roses... ynghyd â

rhyw 1, 000 o bobl eraill, mae 30 mlynedd wedi mynd heibio a dw i dal heb weld fy hun yn y dorf, ond dw i yna.'



GOBEITHIO Y BYDD Y CYLCHLYTHYR HWN YN DDEFNYDDIOL AC YN RHOI CIPOLWG I CHI AR
ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU. RYDYM YN CROESAWU UNRHYW
AWGRYMIADAU AR SUT I WELLA'R CYLCHLYTHYR A'I GYNNWYS.
AM RAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â: IMAGING.ACADEMY@WALES.NHS.UK